# Bwrw ymlaen â cheisiadau ar gyfer aildrefnu achosion llys a thribiwnlys

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â bwrw ymlaen â cheisiadau ar gyfer aildrefnu achosion. Mae'n cynnwys hysbysu personél perthnasol, dyrannu, rhestru a threfnu adnoddau fel y gellir ail-alw achosion cyn gynted ag y bo'n briodol i allu gwneud hynny.

Mae'r term aildrefnu yn cynnwys achosion sydd wedi cael eu gohirio neu'u hoedi.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi ceisiadau i aildrefnu achosion, yn unol â gofynion sefydliadol
2. gwneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth ar gael er mwyn gallu aildrefnu achosion, yn unol â gofynion sefydliadol
3. hysbysu pawb am yr aildrefnu, yn unol â gofynion sefydliadol
4. nodi dyddiadau ar gyfer aildrefnu achosion, yn unol â phenderfyniadau i ohirio
5. cadarnhau bod dyddiadau ar gyfer achosion yn bodloni'r graddfeydd amser gofynnol, yn unol â gofynion sefydliadol
6. amcangyfrif hyd achosion, yn unol â gofynion sefydliadol
7. nodi personél perthnasol i glywed achosion wedi'u haildrefnu, yn unol â gofynion sefydliadol
8. cadarnhau bod adnoddau ar gael ar gyfer achosion wedi'u haildrefnu, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
8.1 cyfleusterau
8.2 personél
9. aildrefnu achosion, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
9.1 trefnu cyfleusterau
9.2 trefnu personél
10. hysbysu partïon mewnol ac allanol am anawsterau posibl o ran bodloni'r graddfeydd amser gofynnol, yn unol â gofynion sefydliadol
11. hysbysu awdurdodau am dystion a phobl eraill berthnasol sydd ar gael, yn unol â gofynion sefydliadol
12. cynnal cofnodion cywir a chyfoes, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion sefydliadol a deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud ag aildrefnu achosion yn eich maes cyfrifoldeb 2. awdurdodaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn eich maes cyfrifoldeb a mathau o achosion y gallant eu clywed 3. rhesymau pam y caiff achosion eu haildrefnu 4. pwysigrwydd dyrannu a rhestru achosion wedi'u haildrefnu yn gywir a chyn gynted ag y bo modd 5. ffactorau i'w hystyried wrth asesu hyd tebygol achosion 6. y gwahanol bersonél sydd eu hangen i glywed achosion yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt 7. graddfeydd amser y mae'n rhaid clywed achosion ynddynt 8. y partïon i'w hysbysu am ddyddiadau gwrandawiadau wedi'u haildrefnu a sut i wneud hyn 9. terfynau eich cyfrifoldeb ac at bwy i gyfeirio os eir y tu hwnt i'r rhain 10. gofynion sefydliadol ar gyfer creu a chynnal cofnodion

SFJDB3

Bwrw ymlaen â cheisiadau ar gyfer aildrefnu achosion llys a thribiwnlys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; cynnydd; dilyniant; gohirio; aildrefnu; oedi; dyraniad; dyrannu; rhestru; adnoddau |